Senedd Cymru
**Llywydd | Presiding Officer**

# Penderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol

## Biliau Cyhoeddus ar gyfer Deddfau Senedd Cymru

Mai 2022

Mae'r Llywydd wedi penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 26.3, mai dyma fydd ffurf briodol Bil Cyhoeddus[1] ar gyfer Deddf gan y Senedd ("Bil"):

### Strwythur

1. Rhaid gosod testun Bil mewn adrannau a'u rhifo, gan ychwanegu atodlenni lle bo hynny'n briodol, a'u rhifo os oes mwy nag un.

2. Caniateir rhannu Biliau yn Rannau ac yn Benodau wedi'u rhifo (a thrin atodlenni yn yr un modd hefyd).

3. Rhaid rhoi pennawd disgrifiadol byr uwchben pob Rhan, Pennod, adran ac atodlen i Fil.

4. Caniateir hefyd rannu adrannau'r Bil (neu baragraffau atodlen) yn grwpiau o dan is-benawdau italig i roi canllaw i strwythur y Bil (neu'r atodlen).

[1] At ddibenion y Penderfyniad hwn, ystyr Bil Cyhoeddus yw: Bil a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26, Bil Hybrid a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26B, neu Fil Cydgrynhoi a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26C.

**5.** Rhaid rhifo pob adran. Caniateir i adran:

- cynnwys un bloc o destun, wedi'i lunio a'i ddiffinio at ddibenion y Penderfyniad hwn fel is-adran, ond heb rif wrtho; neu
- cael ei rhannu'n is-adrannau wedi'u rhifo.

**6.** Caniateir rhannu'r is-adrannau yn baragraffau wedi'u dynodi drwy ddefnyddio'r wyddor Saesneg. Ceir rhannu paragraffau'n is-baragraffau a'u rhifo drwy ddefnyddio rhifolion Rhufeinig mewn llythrennau bach.

**7.** Caniateir i atodlenni gynnwys un paragraff heb ei rifo neu gyfres o baragraffau wedi'u rhifo. Ceir rhannu paragraffau'n is-baragraffau a'u rhifo. Ceir rhannu is-baragraffau'n is-is-baragraffau a'u dynodi gan ddefnyddio'r wyddor Saesneg. Ceir rhannu is-is-baragraffau'n is-is-is-baragraffau a'u rhifo drwy ddefnyddio rhifolion Rhufeinig mewn llythrennau bach.

**8.** Rhaid i Fil gynnwys rhifau tudalennau, gyda rhifolion Rhufeinig mewn llythrennau bach ar gyfer tudalennau'r rhestr gynnwys a rhifolion Arabaidd ar gyfer tudalennau eraill.

**9.** Rhaid i Fil gynnwys tudalen neu dudalennau cynnwys.

**10.** Rhaid i Fil gynnwys darpariaeth i roi teitl byr i'r deddf.

**11.** Rhaid i Fil gynnwys teitl hir a fydd yn dechrau â'r geiriau: “Deddf gan Senedd Cymru i…” yn disgrifio dibenion y Bil. Rhaid i'r teitl hir ymddangos ar dudalen 1 y Bil, a rhaid dilyn y disgrifiad o statws y Bil.

**12.** Dylai'r teitl byr a'r teitl hir fod yn ffeithiol a niwtral, a rhaid iddynt beidio â chynnwys deunydd sydd wedi'i fwriadu i hyrwyddo neu gyfiawnhau'r polisi y tu ôl i'r Bil, neu or-ddweud ei effaith.

**13.** Rhaid i Fil gynnwys geiriau deddfiad, a rhaid i hyn ddilyn y teitl hir. Y geiriau deddfiad y cytunwyd arnynt yw:

> *Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:*

**14.** Ni chaniateir rhaglith i Filiau.

## Arddull a chyflwyniad

**15.** Rhaid cyflwyno Bil ar y templed cymeradwy.[2]

**16.** Rhaid i arddull holl gydrannau Bil, gan gynnwys y gofod rhwng pob cydran, gyfateb i'r arddull yn y templed cymeradwy.

**17.** Rhaid argraffu testun y Bil (y teitl hir, geiriau'r deddfiad, yr adrannau a'r atodlenni) mewn ffont Book Antiqua, maint 11, wedi'i unioni'n llawn.

**18.** Rhaid ychwanegu disgrifiad o statws Bil o dan y teitl byr yn ystod pob cyfnod craffu e.e. fel y'i cyflwynwyd; fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2.

**19.** Rhaid rhoi pennawd i bob adran mewn llythrennau trwm, a fydd yn cynnwys rhif yr adran, yn union uwchben testun yr adran dan sylw. Rhaid i'r testun yn yr adrannau ac ym mharagraffau'r atodlenni ymddangos fel blociau sydd wedi'u mewnoli a dylai'r ymyl chwith fod yn syth.

**20.** Ni ddylai testun Saesneg Bil ddefnyddio iaith ryw-benodol oni bai nad oes modd mynegi ystyr y ddarpariaeth mewn unrhyw ffordd arall (e.e. mae'r ddarpariaeth yn un sy'n ymwneud â phobl o ryw benodol yn unig). Ni ddylai testun Cymraeg Bil ddefnyddio iaith ryw-benodol oni bai bod hyn yn ofynnol gan ramadeg y Gymraeg.

**21.** Caniateir cyflwyno testun fel diffiniad o fewn is-raniad penodol. Caniateir rhannu diffiniadau'n baragraffau diffinio wedi'u dynodi drwy ddefnyddio'r wyddor Saesneg. Ceir rhannu paragraffau diffinio'n is-baragraffau diffinio, a'u rhifo drwy ddefnyddio rhifolion Rhufeinig mewn llythrennau bach.

**22.** Caniateir cyflwyno testun ar ffurf rhestr hefyd, er enghraifft, i restru darpariaethau Deddf, gweithgareddau neu eitemau.

**23.** Caniateir cyflwyno gwybodaeth mewn Bil gan ddefnyddio'r fformatau a ganlyn:

a. tablau;

b. fformiwlâu algebraidd;

c. mapiau, diagramau neu ddelweddau.

[2] Ystyr "y templed cymeradwy" yw'r fersiwn o'r Legislative Workbench (LWB360) a ddefnyddir gan Gomisiwn y Senedd, neu fersiwn gydnaws o'r Legislative Workbench sy'n cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru. Y feddalwedd ar gyfer rheoli a drafftio Biliau a gyflenwir i Gomisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru o dan drwydded Propylon Limited yw'r "Legislative Workbench".

**24.** Rhaid nodi pob tabl, ac eithrio'r rheini sy'n rhan o welliant i ddeddfiad cyfredol (lle bydd yn rhaid dilyn arferion adnabod y deddfiad hwnnw o ran rhifo neu unrhyw arfer adnabod arall) fel: 'Tabl [rhif]' a chynnwys o leiaf ddwy golofn.

**25.** Os yw'n briodol rhestru diddymiadau a dirymiadau ar ffurf tabl mewn atodlen, rhaid i'r tabl gynnwys o leiaf ddwy golofn. Rhaid i'r golofn gyntaf gynnwys teitl byr a rhif pob statud neu offeryn yr effeithir arno mewn trefn gronolegol. Rhaid i'r ail restru'r darpariaethau i'w diddymu neu eu dirymu, yn y drefn y maent yn ymddangos yn y statud neu'r offeryn. Gellir ychwanegu rhagor o golofnau yn ôl yr angen.

**26.** Os bydd fformiwla algebraidd (ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cynnwys o fewn llinellau sengl testun), map, diagram neu ddelwedd yn cael eu cynnwys mewn Bil, rhaid eu nodi fel a ganlyn: 'Ffigur [rhif]'. Yr eithriad yw fformiwla algebraidd, map, diagram neu ddelwedd o’r fath sy'n rhan o welliant i ddeddfiad cyfredol. Yn yr achos hwnnw, bydd yn rhaid dilyn arferion adnabod y deddfiad hwnnw o ran rhifo neu unrhyw arfer adnabod arall).

**27.** Rhaid i bob tudalen o fersiwn Gymraeg a Saesneg Bil ddechrau a gorffen gyda darpariaeth o'r un rhif neu lythyren, yn yr un lle yn y testun. Yr eithriad yw amgylchiadau lle bydd darpariaeth yn rhestru diffiniadau yn ôl yr wyddor, gan arwain at wahaniaethau o ran trefn y testun Cymraeg a Saesneg.

## Rhifau Llinellau

**28.** Rhaid i Fil gynnwys rhifau llinellau.

**29.** Dylid rhifo pob llinell testun ac eithrio'r canlynol:

a. y tudalennau cynnwys;

b. y teitl byr a'r disgrifiad o statws y Bil;

c. fformiwlâu algebraidd ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cynnwys o fewn llinellau sengl testun;

d. mapiau, diagramau neu ddelweddau.